CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 17. RHIF 12.] RHAGFYR, 1917. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

Y PARCH. TOM LLOYD JONES (*gyda Darlun*).—R.J.J.

O FAES Y FRWYDR.—Parch. D. Cellan Evans.

TUAG ADREF.—Ben Davies.

ODDIAR Y TWR.

PRIODAS.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

ER COF.



Y GWIRIONEDD

A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

Nid oes ond saith o gopiau o'r "CRWTH DYFFRYN CLETTWR" yn aros heb eu gwerthu.

PRIS—2/6. CLUDIAD 4c.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

MYNYDDOG	**CERRIG Y RHYD . . .**
SION CENT	**GWAITH GLANYGORS .**
GWILYM MARLES . .	**ROBERT OWEN . . . .**
ALUN	**GWAITH ANN GRIFFITHS.**

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1917-12_17_12



Y Parch. T. Lloyd Jones,

Ganwyd yn Felinfach, Ceredigion, Mai 17, 1847.
Bu Farw yn Lerpwl, Hydref 18, 1917.

YR ❀ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1917. [CYF. XVII. RHIF 12.

Y PARCH. TOM LLOYD JONES.

"*And may there be no moaning of the bar,*
When I put out to sea."—*Tennyson.*

Ganwyd yn Felinfach, Ystrad Aeron, Mai 17, 1847.
Bu farw yn 16, Marmion Road, Lerpwl, Hydref 18, 1917.

CHWITH iawn gennyf fi, fel gan lu eraill, oedd clywed a darllen fod y brawd anwyl Tom Lloyd Jones wedi blaenu arnom—wedi pasio trwy "y geledig gul adwy.'. Fel y clywaf eraill yn dweyd, felly y dywedaf finnau, teimlaf yn annodd i sylweddoli na chawn ni ddim mwy sylweddoli swyn ei bresenoldeb siriol yn ein plith. Mae ei lygad byw, ei wên hapus, ei chwerthiniad iachus wedi mynd i golli arnom. Yn mis Awst diweddaf, onide, y gwelsom ef yn edrych mor hoyw ac mor iach ag erioed, ac yn debyg i un a allai fyw o leiaf ddeugain mlynedd arall. Ond yn awr yr ydym yn cofio ei fod wedi cyrraedd dyddiau'r addewid—wedi pasio ei 70 oed. Trist iawn gennyf feddwl am ei ymadawiad, ac fod y baich wedi ei osod arnaf fi i osod wrth ei gilydd y llinellau bywgraffiadol—y tro hwn am un oedd gymaint yn ifancach na mi.

Ymddengys i mi ond megys doe er pan y derbyniais y llythyr canlynol—"At Gymdeithas y Weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru —Yr ydym ni sydd a'n henwau isod, aelodau o'r Hen Dy Cwrdd, Aberdar, yn dymuno dadgan ein bod yn adwaen Thomas Jones, a'n bod yn ei ystyried yn wr ifanc o rodiad dichlynaidd ac o gymeriad rhagorol." Credaf fod hyn tua 1867—hanner can mlynedd yn ol. Llawnodir y llythyr gan ddau ar bymtheg, ac o'r cyfryw nid oes yn fyw heddyw ddim ond un—sef, Mr. L. N. Williams, Y.H., Caecoed. Hir y parhaed eto.

Yn fuan ar ol hyn fe aeth y brawd ifanc i'r ysgol at y Parch. William Rees, Rhydygwin. Yr oedd yn Ngholeg Caerfyrddin, 1869–71; M. N. C., 1871–77; yn weinidog Hale, 1878–82. Yma'r adeiladodd ysgoldy yn 1881, ac yr adnewyddwyd y capel yn 1882. Pan yn ymadael fe gafodd oriawr aur a chadwen. Yn 1883, fe symudodd i Lerpwl i gymeryd gofal y "Gymdeithas Gartrefol" (*The Liverpool Domestic Mission*). Yma bellach yr oedd i dreulio gweddill ei oes. Yr oedd wedi cael gafael yn y gwaith oedd yn ei siwtio—efe'n siwtio'r gwaith a'r gwaith yn ei siwtio yntau. Os oedd y gwaith yn galed a'r oriau yn hirion, fe daflodd efe ei hunan iddo yn enaid a chalon. Nid oes dim a ddichon ysgafnhau unrhyw orchwyl fel dodi y galon ynddi.

Ei ddyledswydd oedd edrych ar ol *slums* y ddinas, ceisio helpu'r tlodion, diwygio'r meddwon a phechaduriaid eraill o bob math, achub menywod a phlant, a cheisio rhoi cyfeiriad iawn i'w bywydau. Pa waith ardderchog! Pa lafur bendigedicach! Enillodd barch ac edmygedd teulu y llwch hyn, a gallai anturio i'w plith yn hollol ddiofn, lle byddai'r heddgeidwad, lawer pryd, yn teimlo ei fod yn mynd yno ar ei berygl. Yr oedd y plant bach ar yr heol yn ei adwaen a'i garu, ac nid oedd dim a'i boddiai'n fwy na chael ei sylw. Yn ddiameu iddo gwrdd a llawer i siomiant, ond fe gafodd lawer o achos llawenydd hefyd. Carai efe hwynt, a charent hwy yntau. Pleser mawr ganddo oedd gweld parodrwydd rhai o'r gwaelaf hyn i helpu ac i aberthu lle y gwelent yr angen a'r eisieu. Dywedir nad oes neb wedi gadael mwy o ddylanwad daionus ar ei ol yn Lerpwl nag ef.

Bu'n rhyfeddol o ffyddlon a llwyddiannus gyda'i holl ddyledswyddau fel na fu'n hir cyn ennill parch ac ymddiried llwyr y rhai mewn awdurdod. Gallai ffeindio'i ffordd i bocedi'r cyfoethogion—nid gwaith hawdd hyn, fel y gŵyr y darllenydd—mewn modd anwrthwynebol, a braidd yn wyrthiol. Ceisiai arian, ac yr oedd yn ei gael. Yr oedd ganddynt berffaith ffydd ynddo. Gwyddent nad arian iddo ei hunan yr oedd am, ond arian i hwylysu'r gwaith dan ei ofal. Yr oedd hwn yn cynyddu o hyd, a'r adeilad lle trefnid ac y cyflawnid llawer o'r gwaith yn mynd yn gyfyng, ac yn crebachu'r ymdrechion gore.

Dygodd y diffygion i sylw y rhai y gwyddai fod ganddynt y modd a'r galon i helpu. Credent hwythau yn y gwaith, a chredent hefyd yn y dyn oedd ar ben y gwaith; ac yn 1891, yr oedd ganddo un o'r adeiladau newydd gwychaf o'i fath yn y ddinas. Costiodd ddeng mil o bunnau; cynnwysai y cyfleusderau at y gwahanol amcanion fwriedid i adeilad o'r fath—Capel ac Ysgoldy, Neuadd eang lle y cynhelir cyfarfodydd bob dydd o'r wythnos, cyfarfodydd plant, cyfarfodydd meibion a merched, cyfarfodydd mamau, cyfarfodydd dirwest, dosparth Beiblaidd, dosparth cerddorol, llenyddol a chymdeithasol, darlithiau rhydd, cymdeithas cleifion, &c., &c.

Yn 1908, dathlwyd chwarter canrif o'i wasanaeth gyda llawer iawn o rwysg, ac yn Yr Ymofynydd am y flwyddyn honno ceir adroddiad dyddorol ac adeiladol iawn wedi ei ysgrifennu gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A.

Pan dybiai'r awdurdodau eu bod yn gweld arwyddion fod yna lacau yn mywiogrwydd arferol ein cyfaill, trefnent iddo "Daith Rydd" i fynd lle y mynnai, ar dir a môr, er cael adferiad iechyd ac adnewyddiad nerth. Fel hynny, fe gafodd gipolwg ar brif wledydd y byd; ond wedi'r cwbl ni welodd yr un wlad a ddelai mor agos i'w galon a'r wlad y ganwyd ef ynddi, y wlad lle y dysgodd lefaru iaith ei dad a'i fam, yr hon oedd mor felus i'w glustiau bob amser. O, fy hen Gymraeg! Siaradai hi yn rhigl ddigon, a phe cawsai hwyl a hamdden ysgrifenai hi yn dda. Nid rhyfedd, fodd bynag, ar ol treulio cymaint o'i oes yn Lloegr, os teimlai fod ei hysgrifennu yn fwy o faich nag o bleser iddo.

Cyhoeddodd gyfres o lythyrau yn Yr Ymofynydd, wyth mewn nifer, ar ei "Ymweliad ag America, ac y maent oll yn ddyddorol ac adeiladol iawn. Ymddangosodd pump yn 1890, dau yn 1891, ac un yn 1893; ond fel mae gwaethaf y modd fe ballodd yr hwyl a'r hamdden cyn iddo ddweyd hanner ei stori. Cynwysa'r llythyrau lawer o wybodaeth fuddiol wedi ei draethu mewn modd swynol, ac y maent yn werth eu darllen heddyw. Yn 1901–02, yr oedd yn Llywydd y "Gymdeithas Undodaidd Gymreig," ac fe ddarllenodd bapur yn Llandyssul ar "Eglwys y Dyfodol," yr hwn a gyhoeddwyd ddwy waith.

Yn 1905, ar ol hir oedi a phryderu fe ymgymerodd ein cyfaill ag anturiaeth bwysig arall, fe briododd a Gertrude, merch Mr. Thomas Oxton, o Lerpwl—boneddiges o alluoedd hwnt i'r cyffredin, o feddwl clir ac o gydymdeimlad eang, yr hon a brofodd yn amgeledd gymwys iddo, ac yn help ac yn gysur mawr gyda'i holl orchwylion, pa un ai gartref neu yn y *Mission*.

O hyn allan rhaid i'r holl orchwylion, y rhai a ddaethant i fod yn bennaf drwy ei ymdrechion ef, syrthio i ddwylaw arall. Am 34 o flynyddau fe ddarfu i Mr. Lloyd Jones a Mr. Joseph Anderton weithio gyda'u gilydd yn ddibaid i helpu lluoedd annifeiriol, ac fe geir y rhai hyn, nid yn unig yn Lerpwl, ond braidd yn mhob rhan o'r byd heddyw yn teimlo galar ar ei ol. Mae tua 160 wedi uno a'r *Colours*.

Ar ddydd Sadwrn, dydd yr angladd, yn ystod y gwasanaeth coffa, cyn y corff-losgiad, yr oedd y capel, lle'r oedd wedi gwasanaethu am gymaint o flynyddau yn orlawn, a'r tu allan yr oedd y *Cadets*, a phlant yr Ysgol Sul, a lluaws heblaw. Yr oedd yno gynrychiolwyr teuluoedd Rathbone, Holt, Bowring, &c., yn nghyd a gweinidogion a dyngarwyr o bob dosparth. Da gennym fod eglwysi Cymru yn cael eu cynrychioli gan y Parchn. J. Islan Jones, M.A., E. E. Jenkins, James Jenkins, a D. J. Evans.

Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. J. Collins Odgers, B.A. Yr oedd yn anodd sylweddoli, ebe fe, fod Thomas Lloyd Jones wedi ei alw ymaith ar ol dim ond wythnos o glefyd. Gedy adgof melus ar ei ol, a'r *Mission* yn llawer tlotach oblegid ei symudiad. Pasiai'n ddyddiol trwy heolydd y ddinas. Yr oedd pob lle yn gysegredig iddo ef oherwydd natur ei waith—y gwaith ardderchocaf y dichon dyn ymgymeryd ag ef. Yr oedd ynddo ryw obaith

diball oedd yn help i'r mwyaf digalon, ac amgyffrediad clir o amrywiol broblemau cymdeithasol y ddinas a ddeuent dan ei sylw.

Dyddorol yw sylwadau ei gydweithwyr Dyfynwn ychydig eiriau: Mae marwolaeth fy nghyfaill anwyl yn ofid trwm i mi; buom yn gweithio galon wrth galon am 34 o flynyddau.—*Jos. Anderton.*

Yr oedd ei yspryd ysgafn, a'i obaith siriol yn denu pob un ar unwaith. Ystyriwn y rhai hyn yn wir werthfawr ar gyfer ei waith ef, ond tu cefn i'r rhai hyn oedd yspryd dyfnach y dyn. Gwelai'r cyfarwydd ei synwyr cyffredin cryf, ei gydymdeimlad diball, ei gariad at y plant a'i gydymdeimlad a hwy. Cafwyd gweld y modd y carent hwy ef, yn y derbyniad a roisant iddo, ar ol absenoldeb o chwe' mis pan fu ar daith o gylch y byd.—*E. McConnell.*

Yr oedd ei bersonoliaeth yn barhaus yn denu gweithwyr brwdfrydig i'r *Mission.* Gwasanaethai y rhai hyn am 20, a rhai am 30 mlynedd. Ni lefarai byth un gair trwsgl ac angharedig wrthynt. Gwelid ffrwyth y Genhadaeth, i raddau, yn nyrchafiad moesol y gymdogaeth. Anfynych y byddai'r Genhadaeth allan o'i feddwl. Hyd yn oed yn ei freuddwydion ac yn ei glefyd olaf, pan nad oedd yn hollol ymwybodol yr oedd yn bresennol gydag ef.—*W. Coventry.*

"Efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym; i gyhoeddi blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd, dydd *dial* (barn) ein Duw ni, i gysuro pob galarus, ac i roddi iddynt ogoniant yn lle lludw, gwisg moliant yn lle yspryd cystuddiedig; fel y gelwid hwynt yn brennau cyfiawnder, yn blanhigyn yr Arglwydd, fel y gogonedder ef." —*Esaiah 61 : 1—3.*

Dyna'r yspryd oedd y tu cefn i amcan mawr ei fywyd. Boed yr un yspryd yn help i ninnau bawb, yn llusern i'n traed ac yn llewyrch i'n llwybrau, nes clywom yr alwad: "Deuwch chwi fendigedigion fy Nhad," &c.

> Nothing is here for tears, nothing to wail
> Or knock the breast; no weakness, no contempt,
> Dispraise or blame, nothing but well and fair,
> And what may quiet us in a death so noble.—*John Milton.*

R. J. J.

YR UNDODIAID.

Geiriau yr Anrhydeddus W. E. Gladstone am danynt.

Ni ddylem gymryd ein harwain yn frysiog gan wrthwynebiad opiniwn, i farnu yn ysgafn y dylanwad a ddichon ysgol, cyfyngedig mewn rhif fel hon, weithredu ar y dyfodol. Oblegid, os nad ydynt yn llywodraethwyr, maent yn llywodraethu y rhai sydd yn llywodraethwyr. Perthynant i'r dosparth o feddylwyr ac athrawon; ac allan o'r cylch hwn, yn wastad, mae dylanwadau yn mynd allan sydd o un i un yn ffurfio meddyliau dynion, ac yn y cyfanswm, yn penderfynu cwrs gweithrediadau, tynged sefydliadau, a dedwyddwch y teulu dynol.—*Yn y "Contemporary Review," 1876.*

O FAES Y FRWYDR.

II.

Y noson gyntaf yn yr *Hut* ni ddechreuais ar fy ngwaith. Cefais ychydig hamdden i gasglu fy meddyliau at eu gilydd, oblegid yr oeddent yn wasgaredig iawn yng nghanol yr holl newydd-deb yr oeddwn ynddo ; ond eto, anhawdd yw penderfynu pa bethau i'w hadrodd. Hwyrach y bydd gair am drigolion Ffrainc, yng nghyd a'u dulliau o fyw a bod yn ddyddorol i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Y peth cyntaf dynodd fy sylw yma oedd gweld pob modfedd o'r tir wedi ei wrteithio. *Peasant Proprietorship* ydyw deddf y tir yn Ffrainc ; a hwyrach mai hyn sydd yn gyfrifol am ddiwydrwydd y trigolion. Nid oes yma ysgall a brwyn yn ddolur llygaid i neb. Mis Medi ydyw, ac o fore hyd hwyr gwelir y llancesau a'r gwragedd, a'r hen bobl yn casglu yng nghyd yr yd melynwawr, a hynny, lawer pryd, dan gawod o dân-belennau. Ar lawer cyfrif mae'r olygfa yn un druenus, ond gwell gan y tyddynwyr wynebu pob perygl na gadael eu cartrefi annwyl. Gwn fod aberth Prydain Fawr yn un drud heddyw ; ond canmil drutach aberth Ffrainc. Os oes cartrefi galarus yn Sir Aberteifi, mae cartrefi ddengwaith mwy galarus yn Ffrainc. Ceisiwch ddychmygu cyflwr trigolion "Yr Ysmotyn Du" pe gwelent gapeli Llandyssul, Pantydefaid, Llwynrhydowen, Cribyn a Rhydygwin, yn sarn, a'u mynwentydd wedi eu difwyno, a'r pentrefi bychain taclus yn ddeilchion. Trowch eich gwyneb lle y mynnoch yma nid oes ond olion galanas i'w gweld. Anhawdd credu, lawer pryd, fod yn rhaid wrth gymaint o ddinystrio cyn adeiladu byd newydd a dynoliaeth newydd y dyfodol. Perthyna trigolion Ffrainc, yn grefyddol, i'r Eglwys Gatholig Rufeinig ; ond y maent yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn wedi bod yn boeth o wrth-glerigol (*anti clerical*), ac yn parhau felly o hyd. Ond, er hynny, mae yma arwyddion fod yr elfen grefyddol yn cael ei dadebru gan y gorthrymder presennol, ond ar un pryd, fel y gellid disgwyl, mae ofergoeliaeth hefyd ar gynydd. Pan y gwelir ambell i "Groes" yn sefyll i fyny yn ddigyffwrdd yng nghanol difrod, mae dyn yn cael ei dueddu i goleddu pethau rhyfedd, yn enwedig yr un ofergoelus yn barod, Yn sicr, mae hyn yn arwyddocaol iawn. Awgryma i'r meddwl fod Croes Crist i aros yn ddi-sigl yng nghanol adfeilion amser. Mae atyniad hon wedi parhau o ganrif i ganrif, ac yn parhau heddyw yn gryfach nag erioed yn hanes y byd. Bendigedig fydd y dydd hwnnw pan gyfarfyddo y cenhedloedd i gyd dan ei chysgod. A llawer o'r bobl i'r eglwys bore Sul, ac yna gallant fforddio i roddi y prydnawn i fyny i rialtwch a phleser. Cânt wared baich lled drwm fore Sul, ac mae eu cefnau yn weddol rydd i ddal baich arall am chwe' niwrnod, ac ar y seithfed daw adeg gwaredu o hyd. Ffordd rwydd iawn o ymladd y Diafol, onide ! Bum yn gwylio y trefwyr mewn tref enwog yn myned i'r Eglwys un bore Sul. Tarawyd fi a syndod gan nifer y gwragedd gweddwon a phlant basient heibio i mi. Yr oedd pryder wedi ei argraffu yn ddwfn ar bob gwyneb, ac ambell i ben wedi gwynnu, debygwn, yn gynt na phryd. Nid yn y ffosydd yn unig yr ymleddir y rhyfel erchyll hon. Beth am "arwyr y mannau cudd ?" Dyma'r arwyr godidocaf o bosibl. Mae'r clwyfau ar faes y gâd yn ddwfn ddigon, ond tybed nad oes clwyfau dyfnach ar aelwydydd y byd. Mae'r drin yn druenus o arw yma ; ond beth am ei rhuthriadau ar ambell i enaid yn yr unigedd pell yn yr "hen wlad." Fe ddywedodd rhywun, i frwydr Waterloo gael ei hennill ar

feusydd chwareu Eton, ond y tro yma daw ymwared, ni a gredwn, o aelwydydd y werin. Gwyliwn yn weddigar am y dydd. Ond yr ydym yn crwydro. Dechreuasom gyda thrigolion Ffrainc. Maent yn bobl *emotional* iawn. Daw y duedd yma i'r golwg yn amlwg iawn pan y maent yn ymddiddan a'u gilydd.

Gwelir y milwr Ffrengig ar ei oreu, mae'n debyg, pan yn ymosod. Nid yw cystal pan yn amddiffyn. Synna'r trigolion wrth weled y Prydeiniwr mor hamddenol (*stolid*) pan fo perygl yn agos.

Yng Nghymru, fel y gwyddoch, tê a chwrw ydyw'r ddau wlybwr mwyaf cyffredin; ond yn Ffrainc *coffee* a gwin ydynt. Nid ydyw'r dwfr sydd yma yn bur. Gwaherddir y milwyr i'w yfed heb ei ferwi yn gyntaf. Ond er fod dulliau ac arferion y Ffrancod yn gwahaniaethu llawer oddiwrth eiddo y Cymry a'r Saeson, eto yr un ydyw'r natur ddynol ymhob gwlad. Pwy ddydd bum yn gwylio ychydig o blant yn cyd-chwareu mewn pentref bychan. Rhywbeth yn debyg oeddent i blant ysgol Cellan flynyddau yn ol—ambell ysgarmes ac ambell i bwt o lawenydd bob yn ail. Mae'r plant yn efelychu y *British Tommy* yn gyflym iawn. Mor feistrolgar yr ysmocia ambell un o honynt ei *cigarette*. Clywir rhai o honynt hefyd yn canu caneuon y Sais. Clywais dŵr o honynt un dydd yn canu, "*Till the boys come home*," ac mae "*Tipperary*" yn boblogaidd iawn yn eu mysg o hyd. Pwy fedr ddirnad effaith yr amser presennol ar y dô ieuanc sydd yn codi yn Ffrainc, ac ym Mhrydain hefyd, a thrwy'r byd yn gyfan, o ran hynny. Onid yma y llunir ac y meithrinir dynoliaeth newydd y dyfodol? Gofaled ein harweinyddion crefyddol a chymdeithasol ar ba fath ddelw y daw allan o'r pair.

Pethau cyffredin iawn ar hyd a lled Ffrainc ydyw'r "*Wayside Crucifixes*." Mae eu maint a'u gwneuthuriad yn dibynnu, debygem, ar amodau lleol. Mewn ardal dylawd, gwelir croes o fetel yn gorphwys ar bedair ffon haiarn. Mewn lleoedd cyfoethocach maent yn gywreiniach eu gwneuthuriad, a muriau wedi eu hadeiladu oddiamgylch iddynt, y rhai a gynnwysant allor fechan hefyd. Mae'n rhyfedd fel y mae'r Groes wedi ei chysylltu a rhyfeloedd! Hawliai yr Ymerawdwr Constantine gynt ei fod wedi ei gweld mewn ffurf o dân yn yr wybren, ac arni yn ysgrifenedig, "Drŵy yr arwydd hon y gorchfygi." Mewn amseroedd diweddarach cymerodd y Croes-gadwyr eu henwau oddiwrthi. Y mae llawer o "anrhydeddau" milwrol ar ei ffurf. Rhyfedd, onide, fod pob cenedl, oddigerth un neu ddwy, ymron yn y rhyfel presennol yn defnyddio llun y Groes. Yn mynwentydd milwrol yr Almaenwyr yn Ffrainc, gwelir yr *wooden crosses*—fel yn ein rhai ni—dim ond eu bod yn fwy o faint. Ond beth pe bae yr Almaen yn credu yn wirioneddol yn y Groes, a fuasai y gyflafan bresennol wedi ysgubo dros y byd? Ond hwyrach y daw pob cenedl yn nes ati oherwydd hyn. Os ydyw'r byd yn cael ei rwygo benbwy-gilydd, mae'r Groes yn aros yn ddi-sigl yng nghanol y cyfan. Cymeraf yn awr ychydig linellau i geisio desgrifio diwrnod o waith yn yr *Hut* yr wyf ynddo. Amrywia'r gwaith yn ol safle ac yn ol maint yr *Hut*. Y mae'r *Hut* hwn yn ddigon agos i'r magnelau mawrion i ni wybod fod rhyfel yn myned yn mlaen; ac nid bob amser y gellir rhoi'r "holl feddwl" ar y gwaith. Deffroir fi, fel rheol, gan *anti air-craft gun* cyfagos. Y mae gryn dipyn mwy effeithiol na "chloc larwm" hanner coron. Y gorchwyl nesaf ydyw ceisio eillio yn weddol hamddenol, ond yn aml y mae'r ystumiau yn fwy dychrynllyd nag eiddo Robert Owen gynt pan yn ceisio cyflawni'r un gorchwyl. Y peth nesaf ydyw brecwast. Aiff hwn i'w le yn weddol gyflym. Yna ceir cipdrem, efallai, dros bapur echdoe, neu'r wythnos gynt—fel y digwydda. Yna, mygyn o'r "cetyn du cwta," cyn dechreu agor *boxes* o *cigarettes*, myglys, *biscuits*, &c., a'u gosod yn drefnus ar y *shelves* tu ol i'r *counter*.

Am un-ar-ddeg agorir y siop, ac yn sydyn wele finnau "a'r gôt ar lawr" (chwedl y Parch. R. C. Jones, Llanbedr), a llewysau fy nghrys i fyny yn ceisio gwrthsefyll y "*counter attack.*"

Un yn gwaeddi *coffee*,
A'r llall yn gwaeddi tê,
Un arall floeddia, *biscuits*,
O'r anwyl, dyma le !
Môr o wynebau bywiog
Yn tonni o fy mlân,
A'r chwys yn dechreu tripian
Fel bacwn ger y tân,
Yr *Hut* i gyd yn crynu,
A'r *counter* bach ar fynd ;
A minnau bron rhoi fyny,
A gwaeddi allan, "Ffrynd."

Yn nghanol y cyfan, dyna *whistle shell* yn myned drosodd i rywle, yn diaspedain drwy y nen, ond nid oes amser i wrando. Rhaid dal ati. O dipyn i beth llaesa'r ymosodiad, a cheir buddugoliaeth. Ceuir y drysau eto am hanner awr wedi un, ac yna daw cinio — tipyn o *beef*, y rhan fynychaf, a thatw ; llymaid o gawl, pryd arall. Wedi hyn, mygyn eto, a cheisio casglu nerth i wynebu *counter-attack* arall am dri o'r gloch. Nid yw hon mor ffyrnig a'r un y bore. Ymleddir hi hyd tua saith yn yr hwyr. Yna ceuir y *counter* a chynhelir gwasanaeth crefyddol hyd tua wyth o'r gloch. Agorir eto am yspaid o hanner awr wedi hyn. Yna cyfrifir yr "yspail am y dydd," a daw swper oddeutu naw, ac ar ol hynny, "gweddiau teuluaidd." Yna awn allan am dro—y rhan fynychaf i gyfeiriad y "*Front*," a cheir golygfa annesgrifiadwy ambell waith. Y wybren yn oleu i gyd gan fflachiadau'r magnelau ; a'r twrw, lawer pryd, yn ddigon i dd'rysu'r anghyfarwydd. Ar ol rhodio ychydig oddiamgylch, gwynebwn yn ol tua'r *Hut*, ac nid hir y byddwn cyn myned i orphwys —y corph yn lluddedig, ond yr yspryd a'r meddwl yn cyfranogi o'r llawenydd sydd mewn gwasanaeth a gwaith.

"Something attempted, something done,
Has earned a night's repose."

Dyna fraslun amherffaith iawn o un rhan o'r gwaith wneir yma. Y tro nesaf, efallai y ceisiaf ysgrifennu ychydig linellau ar rannau ereill o hono.

D. Cellan Evans.

TUAG ADREF.

Mynych yn y dyddiau gynt canwyd yr hen gân adnabyddus, "Home, Sweet Home," fynychaf gan feibion a merched wrth ddychwelyd o ddwr y mor, ar ol bod am bythefnos oddicartref. Erbyn hyn, gŵyr mwyafrif mawr ein pobl ieuainc beth yw alltudiaeth. Mae'r gân wedi newid a'r sain wedi bywhau ; yn lle'r lleddf ceir dipyn o fynd yn y gân newydd, "All aboard for Blighty," a mwy o *ring* wrth ei chanu.

'Roedd yn ddiwrnod brwd i Macedonia,—ac y mae hynny yn osodiad mawr, lle mae trwy dymor haf yn boeth, a'r tês yn codi yn fwy ffyrnig bob munyd, fel y teimla pawb megis ar fogi. Nid oedd haul cymhedrol mis Awst yng Ngheinewydd ond atgof aneglur.

Yn ddisymwth, daeth neges ataf i ymddangos o flaen y swyddog. Brysiais ato. Ac o ryfedd helynt, mewn canlyniad i'r hyn ddywedodd, dyma fi heddyw yn ysgrifenu o Hampshire. Meddai, "*You embark tonight to sail for home.*" Ar ol dwy flynedd a thri mis o alltudiaeth, braidd y meddwn ar ddychymyg i amgyffred beth a feddyliai'r frawddeg. Wedi crynhoi fy meddwl penbleth at ei gilydd, dyma'r breuddwydio'n dechreu,—gartref, fy nheulu, fy nghyfeillion, Cymru a Chymraeg. Duw'n rhwydd i'w gweled unwaith eto!

'Roedd mynyddoedd Macedonia yn cilio o'r golwg. Gwelwn fugeiliaid Groegaidd — hogiau ieuainc chwarëus, a'u gwisgoedd cenedlaethol, a'u ffyn hir, a'i pibau yn galw'r defaid, fel Pan a'i bibellau, ar y llethrau o'm hamgylch; ond swn bugeiliaid Cymru a chyfarthiadau'r cwn oedd fwyaf byw i'm hymwybyddiaeth y pryd hwnnw. 'Roedd Olympus yn y pellder - cartref y Duwiau, a'r eira'n ymddangos fel marmor palmantau paradwys ar ei goryn; ond beth am hynny? Pencoedfoel oedd y mwyaf eglur i mi, a chartref y Mabinogi, a meusydd Pwyll a Rhianon, oedd yn fy nenu.

Ond dyna, heb oedi rhaid oedd parotoi i ymadael. Ni'm blinwyd gan ormod beichiau. 'Roedd yn rhaid golchi'r llodrau; gwnawd hyn, ac ymhen awr gwisgwyd hwy yn eithaf sych a chrâs, beth bynnag am eu glendid. Ffarwelio â hen gyfeillion—'roedd hynny'n anhawdd ar ol profi teg a garw gyda'n gilydd. 'Roedd eu dymuniadau da yn gynorthwy mawr. Ffortunus oeddwn i gael fy nghludo'r holl ffordd gan fodur gerbyd, ar hyd y llwybr lle y bu Alexander Fawr a'i fyddinoedd yn troedio, a Xenophon, o bruddaidd goffadwriaeth, pan yn ceisio dysgu Groeg, ac wedi hynny Iwl Caesar a'i orymdeithau; ond er rhamant y ffordd honno, mwy awyddus oeddwn i am droedio meusydd brwydrau Llewelyn, Owen Glyndwr, a Rhys ap Thomas. Daethpwyd i'r hafan, a'r llong dda yn ein disgwyl. Hwyliwyd, neu yn hytrach agerwyd, cyn nos, ac ar ol llawer o helyntion, a chyffwrdd â llawer o fannau dyddorol nad yw gwiw eu henwi yn awr. Glaniwyd ar lannau Prydain, a thua hanner nos daethpwyd i Lundain, lle'r oedd cwpanaid o dê twym yn ein disgwyl. 'Roedd yr hin yn oer a'r dillad yn deneu. Cyfeiriwyd ein parti bychan i le cyfleus i gysgu'r nos. Dranoeth yr oedd yn rhaid talu ymweliad â'r awdurdodau, a chael cennad i fyned ymhellach, ac addawyd pedwar diwrnod ar ddeg gartref. Gartref! I weled Cymru, clywed Cymraeg oddiar dafodau'r plant, a'i chaneuon yn cael eu canu!

Tuag wyth y boreu agorwyd drws ym mlaen y Rhondda, er balchder mawr i bawb yno. 'Roedd y mab ieuengaf wedi dyfod adref, a chroesaw calon iddo. Yno gwelais gartref mewn ysprŷd a gwirionedd. Nid oedd yno un cyfnewidiad gweledig, dim rhodres, ond derbyniad calonog. Er fod y teimladau ar dorri, nid gwiw eu mynegi. 'Roedd yn ddigwyddiad rhy fawr i hynny, a'r arferol yn unig oedd yn addas.

Ar ol yr arlwyaeth, rhaid oedd edrych pob man yn y tŷ, ac fel ail natur, yn gyntaf i'r llyfrgell. Dyna, ar ei *shelves* oedd y cyfrolau, lle bu'm yn ceisio tynnu maeth addysgiadol oddiwrthynt, ac yn yr ystafell fu yn gell i mi llochesi rhag llawer o beryglon y byd ac yn foddion i mi gael fy lle yn rhengoedd y rhai sy'n ceisio cadarnhau cyfiawnder a barn. O'r llyfrau hyn y dysgais am ramant y gorphenol, am eangder y byd, am amrywiaeth pobl; ond dysgais ar ol eu gadael yr hyn y soniant am dano drwy brofiad.

Clywais am broffeswr mewn coleg duwinyddol yng Nghymru, ar ol blwyddyn o ryfel, yn dweyd wrth ei fyfyrwyr oedd hytrach yn oedi i gymeryd i fyny faich y genedl,—"We study history here in peace; the nation is making it in blood."

Clywais ar yr aelwyd am ymdrechion y werin, yn enwedig am Rebecca a'r ocsionau degwm, a thrafferthion

'68. Fy hoff gyfnod wrth fyfyrio oedd cyfnod Cromwell. Hoffais lawer gwaith y byddem yn fyw yn oes Cromwell a Miltwn; ond dyma amser mwy ffyrnig, doed a ddelo. Diolch i'r nefoedd am fraint i dystio dros egwyddor!

Mae'r llyfrau yn rhestri, a di-lwch. Mae dwylaw anwyl wedi gofalu am danynt, a'r ystafell yn grâs bob amser. Ond heddyw mae tair cyfrol arall, yn friw, yn llwch, ac yn llaid, wedi eu hychwanegu atynt—Testament Newydd bychan, "Ebal a Gerazim"—nid yw ond pamphledyn, ond yn gyfrol o ran ysprydoliaeth,—a chopi ceiniog o Islwyn, ond gwerth pwysau ceiniog o aur. Llawer gwaith gwelais fawredd y bardd yn gafaelyd mewn gwirioneddau cyffredinol, ac nid cyfyngedig. Nid yw "Lloer" Islwyn yn unman yn fwy gwir nag ym Mor y Canoldir, er tebyg na fu efe yno erioed. Mae y tri trysor hyn yn "War Heroes" i'r cyfrolau eraill, oherwydd buont gyda'u perchenog ymhob helynt.

Bellach rhaid adrodd helynt, a son am bawb a phob peth, dangos *souvenirs*, ac felly treulìwyd y dyddiau cyntaf. Ymhen ychydig ddyddiau, cychwyn i fro fy mebyd, a galw yng Nghaerfyrddin, a siarad a'r hen athrawon, ac eto myned drwy yr Athrofa—y tro hwn mewn tair munyd, ac nid tair blynedd.

Hefyd i Ddyffryn Teifi, lle bu'm yn chwareu mil waith ar ei glanuau gyda chyfeillion sydd erbyn heddyw yn chwareu mewn dull mwy arswydus.

Braint oedd treulio Sabbath yno, a chlywed eu Salmau. Dylanwadol oedd clywed, adeg cwrdd y bore, wrth gerdded heibio'r capel yn y pant, ar ben y bryn, hen Salm adnabyddus Gymreig yn cael ei chanu. Ni fu'r Salm gyntaf ganwyd yn y deml yn Jerusalem yn fwy melus i'r dychweledigion o gaethiwed Babylon na'r Salm honno i fy nglustiau i. 'Roedd cydsain y nant a'r gwynt dros y fro ynddi. 'Roedd yn gyfeiliant priodol i gwympiad y dail, ac yn adlais o anfarwoldeb. Addoli yn Llwynrhydowen ar nawn Sul, a'r Graig, Llandyssul, nos Sul, ac yna yn ol i Gwm y Rhondda drannoeth.

Seibiant ydoedd, ac yn awr rhaid parotoi ar gyfer ymdrechion ychwanegol, a phwysau mwy o gyfrifoldeb. Ychydig fisoedd yn ychwaneg, ac yna ymlaen eto i'r maes; ond yn fwy calonogol ar ol ychydig amser gartref i adnewyddu ysbryd, ac i ail gysegru ymdrech.

Mae'r ffordd yn flin a garw, ond drwy y dagrau a'r gwaed, clywn yr alwad, o dystiolaeth y gorphenol ac ysbrydoliaeth y dyfodol—Ymlaen!

BEN DAVIES.

ODDIAR Y TWR.

Beth am Iesu Grist? Ai Duw ydoedd, ynte dyn, ynte rhywbeth rhwng y ddau, na ellir yn hawdd dweyd beth? Y dydd o'r blaen darllenais yr hyn a ganlyn: "Os nad yw y Crist, Iesu Grist, yn Dduw, yna yn sicr nid oes Duw. . . . . Yr wyf wedi gweled morwr yn codi llond celwrn o ddwfr o'r môr; yr oedd y celwrnaid hwn cystal engraifft o'r môr ag a ellid ei gynnwys tu fewn i lestr cyfyng. Braidd na ellid dweyd, 'Dyma'r môr.' Yn yr ystyr hwn y mae Iesu yn Dduw i mi." Geiriau'r Parch. Stanley Russell, olynydd y Dr. Odgers yn

Eglwys Grafton Square, Llundain, yw y rhai hyn. Beth yw eu hystyr? Anhawdd dweyd; eithr ymddangosant fel tipyn o chwareu â geiriau, a dweyd y lleiaf am danynt. Dweder a fynner am y celwrnaid dwfr, nid yw ond rhan o'r môr. Pa ran o'r môr ydyw a ddibynna ar faintioli'r celwrn. Ai syniad yr awdwr ydyw fod Iesu yn Dduw ym mhob priodoledd o'r Duwdod ond yn y briodoledd o faintioli? Yr unig wahaniaeth rhwng y celwrnaid dwfr a'r môr yw'r maintioli; yn yr un modd y mae Iesu yn fynegiad gyflawn o bob priodoleddd o'r cymeriad Dwyfol gyda'r eithriad o'r briodoledd o faintioli. Mater o faintioli'r llestr yw'r cwbl. Os felly, ai nid iawn yr hyn ddywedais eisioes—mai chwareu â geiriau yw rhywbeth fel hyn?

***

Yn ol yr olwg uchod, a oes un gwahaniaeth hanfodol rhwng Iesu a dynion ereill? Nid oes un gwahaniaeth ond yn unig mewn gradd. Fel y mae un seren yn rhagori mewn gogoniant ar sêr ereill, felly y mae graddau yng ngwerth cymeriadau dynol; a cheir y radd uchelaf yn Iesu Grist. Dyna, i'm tyb i, yw'r olwg Efengylaidd. Ac i hyn y'n harweinir gan ymresymiad tebyg i'r un y cyfeiriwyd ato uchod. Ac eto, dywed un awdwr, os mai'r olwg hon sydd iawn, nad oedd Iesu amgen na dyn drwg. "Os nad Duw," medd y Parch. Richard Morris yn ei lyfryn ar "Berson Crist," "yna dyn drwg." Ei honiad yw—"y buasai yn amhosibl i ddyn da, heb son am ddyn di-bechod, siarad am dano ei hun fel y gwnai Efe." Ni chytunaf â'r olwg hon; eithr rhwydd gydnabyddaf mai dyna olwg yr Eglwys Gristionogol er yn gymharol foreu yn ei hanes.

***

Yng Nghredo gydnabyddedig Eglwys Loegr yng Nghymru, neu Eglwys Cymru, fel penderfynwyd ei galw gan yr Eglwyswyr yn eu Cynhadledd yng Nghaerdydd ddechreu Hydref, desgrifir Iesu fel Duw Hollalluog, Holl-bresennol, gogyfuwch â'r Tad ym mhob priodoledd; nid yn amlygiad o briodoleddau'r Duwdod, ond yn feddiannydd cyflawn o'r oll. Dyna sylwedd cynnwys y Credoau ereill. Dianghenrhaid yw dyfynnu o honynt. Troed y darllenydd at un o honynt Credo Sant Athanasius, er enghraifft—fel gallo ei darllen drosto ei hun. Y mae iaith y Gredo yn ddigon penodol a diamwys. Ei bod yn ddealladwy—wel, ni phroffesa neb (hyd yn oed y credinwyr mwyaf aiddgar o honi) ei bod yn ddealladwy. "O dywyllwch disgleiriaf," yw desgrifiad un o honi. Mae'r gair "tywyllwch" yn un digon priodol; eithr nid felly'r gair "disgleiriaf." Tywyllwch disgleiriaf! Mae'r peth yn wrthun.

***

Rhwng y ddau syniad uchod am Dduwdod Crist y mae cagendor anferth—braidd na ellir dweyd cagendor na ellir ei groesi. Ond y mae'r ffaith fod y fath ar syniadau gwahanol yn bosibl yn amlygiad o'r amwysedd meddwl y mae'r byd Cristionogol Iawnffyddol wedi syrthio iddo. Nid syndod, felly, fod y byd y tu allan yn glustfyddar i apêl yr Eglwysi, pan y ffynna'r fath ar amrywiaeth yng ngwisg yr apêl.

***

Beth, ynte, am Iesu Grist? Amlwg yw ein bod yng nganol yr hyn ellir ei alw yn chwyldroad distaw mewn perthynas i'r mater hwn, ond nid llai effeithiol oblegid ei fod yn ddistaw—chwyldroad a'n dwg, yn raddol ond yn sicr, at Iesu yr Efengylau—at y bersonoliaeth ddynol (neu ddwyfol-ddynol, os mynner) ddaw i'r golwg drwy'r Efengylau. Dyna'r olwg ar Iesu a grea edmygedd o hono a brwdfrydedd dros ddaioni yng nghalon y ddynolryw. Mae'r Iesu hwn uwchlaw pob enwadaeth o bob lliw—Trindodaidd, Undodaidd, ac yn y blaen.

***

Tra yn troi dail y "Llyfr Gweddi Gyffredin" o un i un, yn ddiweddar, daethum at y Trydydd Colect yng Ngwasanaeth Boreol yr Eglwys. Dyma hi: "O Arglwydd, Nefol Dad, Hollalluog a Thragywyddol Dduw, yr hwn a'n cedwaist yn ddiangol hyd ddechreu'r dydd heddyw; amddiffyn nyni ynddo a'th gadarn allu; a chaniatâ na syrthiwn y dydd hwn mewn un pechod, ac nad elom mewn neb rhyw berygl; eithr bod ein holl weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywio wrth dy lywodraeth, i wneuthur yn wastad y peth sydd gyfiawn yn dy olwg di. Trwy Iesu Grist. Amen."

***

Yr wyf yn edmygydd o gryn lawer o gynnwys y "Llyfr Gweddi Gyffredin"—gyda'r eithriad er enghraifft, o'i syniadau duwinyddol, yn ogystal a rhai ymadroddion a gynhwysant (i'm tyb i) syniadau gwallus am ddulliau ymwneud Duw â dyn. Mae'r Weddi uchod, mi gwbl gredaf, yn un o'r enghreifftiau godidocaf o wir weddi wn i am dani; ac amhosibl lai na theimla'r hwn a'i hedrydd yn yr ysbryd iawn yn well, yn gryfach, yn fwy awyddus i wneud yr hyn sydd iawn, oblegid hynny.

***

Nid godidogrwydd y weddi, fodd bynnag, eithr rheswm arall, a'm harweiniodd i gyfeirio ati yma—hyn: wrth ddarllen o honof fywgraffiad y diweddar Arglwydd Celfin, daethum ar draws ffaith a berodd i mi gryn ddiddordeb. Un o athrawon Prifysgol Glasgow oedd Arglwydd Celfin, ac un o athronwyr aniannol enwocaf y ganrif ddiweddaf. Ymddengys ei fod, bob boreu, yn ystafell ei ddosbarth, o flaen ei ddosbarth, pan ar fin dechreu ar waith y dydd, yn cau ei lygaid, ac yn adrodd y Colect neu'r Weddi uchod. Wn i ddim pa un o'r ddau beth apeliai ataf nertholaf—ai y weddi, gyda'i hymadroddion syml, ei meddylddrychau gogoneddus, a'i deisyfiadau enaid-gynhyrfiol; ynte, gwaith y dyn mawr hwn, oedd wedi treiddio mor ddwfn i ddirgelion natur, yn ymostwng mor ostyngedig gerbron awdwr natur, cyn dechreu ohono ar waith y dydd, i ofyn am ei gyfarwyddyd a'i amddiffyniad. Tynned y darllenydd pa gasgliadau bynnag a fynno oddiwrth y ffaith hon, dyma'm casgliadau i—fod yn yr enaid dynol hiraeth am Dduw; nad oes un wybodaeth eill ddiffodd yr hiraeth hwn; ac mai'r unig ffordd y gellir ei foddloni yw, trwy ymostwng o honom ger ei fron mewn gweddi ddwys a difrifol.

***

I'r rhan fwyaf o'n darllenwyr, y mae'r Ilythyrennau Y.M.C.A. erbyn hyn yn dra chyfarwydd. Ond ychydig sydd, fel mae lle i ofni, a feddant un math ar syniad clir am y gymdeithas, ac am y gwasanaeth gwerthfawr a gyflawnir ganddi. I bob man lle'r ä rhyw gyfran o'r fyddin, fe ä Cymdeithas Gristionogol y Bobl Ieuainc (*Young Men's Christian Association*, oblegid dyna olyga'r llythyrennau uchod) yno gyda hwy, gyda'i "chabanau," y rhai ydynt, i'r milwyr, yn "gartref oddicartref." Cedwir y drysau fyth yn agored, trwy y rhai y gall pob milwr anturio i fyned i fewn, gyda sicrwydd fod yno groesaw yn ei aros. Nid yn unig y mae yno groesaw iddo, ond y mae yno bob math ar gysuron at ei wasanaeth, a bechgyn a merched o gymeriadau Cristionogol profedig yn barod i weini arno. Cymdeithas ydyw a ddibynna yn hollol ar haelioni'r cyhoedd am foddion i gario ei gweithrediadau aml-rywiog ymlaen. Pe rhoddwn rai ystadegau i ddangos beth wneir ganddi, credaf y perent syndod i'r darllenydd, ac ni chredaf lai, ychwaith, nad agorent ambell i galon i roi ychydig gynhorthwy iddi—yr agosaf at fod yn gymdeithas anenwadol wn i am dani.

***

Nid gweini cysuron corfforol i'r milwyr yn unig, fodd bynnag, wneir ganddi. Dyma lythyr ddaeth i'm llaw ychydig ddyddiau yn ol o un o swyddfeydd y gymdeithas. "Anwyl Frawd.—Y mae y Preifat —— ——, wedi arwyddo'r ymrwymiad a ganlyn yn un o Neuaddau y Y.M.C.A.: 'I hereby pledge my allegiance to the Lord Jesus Christ, and promise by God's help to fight his battles for the victory of his kingdom'"; neu, yn y Gymraeg, "Addunedaf fy ngwarogaeth i'r Arlwydd Iesu Grist, ac addawaf trwy help Duw i ymladd ei frwydrau er llwyddiant ei deyrnas." Dyna rywbeth â thinc Cristionogaeth Iesu ynddo, onite?—brwydro dros lwyddiant teyrnas Iesu fel amcan pennaf bywyd. Iechyd calon yw cael o honom ein cludo fel hyn yn achlysurol o awyrgylch afiach enwadaeth i awyrgylch gwir Gristionogaeth—Cristionogaeth Iesu. Cristionogaeth Iesu, sylwer, nid yr hyn elwir yn Gristionogaeth yn rhy gyffredin—Cristionogaeth yr Eglwysi. Ni olygaf nad oes dim Cristionogaeth yn yr Eglwysi; eithr golygaf, yn hytrach, fod llawer rhy fach o Gristionogaeth Iesu ynddynt. Ni all credoau ac enwadaeth gyd-fyw â'i Gristionogaeth Ef. Ni wn i am ddim a ddengys mor lleied o Gristionogaeth Iesu sydd yn Eglwysi a'r ysbryd enwadol sydd mor uchel ei ben drwy'r holl fyd Cristionogol. "Ein henwad ni" yw'r gân syrth ar ein clustiau fyth a hefyd. I abred, ddwedaf fi, yr elo pob math ar enwadaeth. Yna, fe fydd rhyw obaith am yr Eglwysi.

***

Angen mawr ein dydd yw pwysleisiad mwy trwyadl o elfennau hanfodol teyrnas Iesu—eu pwysleisio â holl ynni'r enaid. Beth yw'r elfennau hyn? Heb eu henwi i gyd, fe gynhwysant gyfiawnder personol a chymdeithasol, brawdoldeb, cariad at Dduw a dyn—cariad at Dduw a amlygir yn oreu drwy gariad at ddyn. Elfennau hanfodol i deyrnas Iesu yw y rhai hyn—ni ellir ei sefydlu hebddynt. Diffyg o'r elfennau hyn—yn fwy pennodol, diffyg o gymhwysiad ymarferol o'r egwyddorion hyn ym mherthynas dyn â dyn—yw'r drwg a andwya gymdeithas heddyw yn fwy nag erioed—ym mhob gwlad. Pe bai tipyn yn rhagor o Gristionogaeth Iesu ym Mhrydain heddyw, ni chlywid cymaint o achwyniadau oblegid y beichiau celyd osodir ar y boblogaeth gan rai a garant eu llogellau o flaen pob dim—y *profiteers*, fel eu gelwir.

***

Nid wyf wedi cwbl orffen â'r ymrwymiad y cyfeiriais ato: "Addunedaf fy ngwarogaeth i'r Arglwydd Iesu Grist, ac addawaf trwy help Duw i ymladd ei frwydrau er llwyddiant ei deyrnas." Dyma fan y gall pawb dynion gyd-gwrdd—Cristionogion a rhai heb fod yn Gristionogion (yn ystyr arferedig y gair); Trindodiaid ac Undodiaid; crefyddwyr a rhai heb fod yn grefyddwyr (yn ystyr arferedig y gair eto). Dwedaf hyn am y credaf nad oes un dyn, gan nad sut y desgrifia ei hun, na ddymuna weled cyfiawnder, brawdoldeb, a chariad, wedi eu gorseddu yn gadarn yng nghalonnau'r ddynolryw. Dyna'r diwygiad sydd a'i eisiau heddyw. Gwnaeth yr hen ddiwygiadau waith da. Eithr yn y gorffennol y mae eu dydd hwy bellach. O hyn allan rhaid cael y fath ar ddiwygiad ag a gyffyrdda â gwir fywyd dyn, ac nid diwygiad a'i gogleisia ar y wyneb yn unig.

***

Dyma gylch-lythyr a ymddangosodd yn y papyrau yn ystod y mis, o law amryw a ystyrir yn arweinyddion yr Eglwysi Rhyddion:

"ARWYDDOCAD YR AMSER :

(1) Fod yr argyfwng presennol yn cyfeirio at derfyn amserau y cenhedloedd ; (2) Y gellir disgwyl datguddiad ein Harglwydd unrhyw adeg, pryd yr amlygir ef mor danbaid ag y gwnawd i'r disgyblion noson yr Atgyfodiad ; (3) Y rhaid i bob cynllun dynol o ad-drefniant [cymdeithasol] fod yn gynhorthwyol i ail-ddyfodiad yr Arglwydd, oblegid gwneir yr holl genhedloedd, y pryd hynny, yn ddarostyngedig i'w lywodraeth Ef ; (4) Y bydd, dan ei lywodraeth Ef, dywalltiad mawr ychwanegol o'r Ysbryd Glan ar bob cnawd ; (7) Fod y gwirioneddau draethir yma o'r pwys ymarferol mwyaf yn eu hamlygiad inni o'r hyn ddylai cymeriad ac ymddygiad Cristionogol fod mewn perthynas i bynciau mawr y dydd." Arwyddir y cylch-lythyr hwn gan ddeg o bersonau, ym mhlith y rhai y gwelir (o leiaf) ddau enw adnabyddus iawn —y Parchn. Dr. Campbell Morgan, a F. B. Meyer. Nid yw iaith y cylch-lythyr yn eglur nac yn benodol ; ond ei ystyr (fel y mae yn amlwg) yw—fod Crist ar ddychwelyd i'r ddaear i osod i fyny ei deyrnas.

***

Bum, am beth amser ar ol darllen o honof yr uchod, yn teimlo tuedd gref i rwbio'm llygaid, gan y tybiwn y rhaid fy mod wedi syrthio i fath ar freuddwyd effro, a'm bod wedi darllen, nid llythyr wedi ei argraffu ar bapyr a chydag inc, ond rhywbeth tebyg i lythyr, i'r hwn nad oedd un sail rhagor nag sydd i freuddwydion yn gyffredin. Gwn fod yn y byd blaid liosog a broffesant gredu yn ail-ddyfodiad Crist. Ond y personau uchod! Wel, braidd y disgwyliem oddiwrthynt hwy fynegiad o gred yn y syniad hwn heddyw, ddechreu'r ugeinfed ganrif.

***

At y cylch-lythyr ychwanegir olnodyn (rhoddaf ef yma yn Saesneg) : "N B. This is a general statement, which does not profess to decide on particular details of interpretation" ; yr hyn, o'i rydd-gyfieithu, a olyga—na fedd hyd yn oed awdwyr y llythyr ffydd gref iawn yn sylweddoliad buan eu disgwyliad. Mae'r Crist i ddychwelyd : dyna'r gosodiad sylfaenol. Pa bryd? Ni ellir dweyd. Gall ddod yn fuan—un o'r dyddiau nesaf ; a gall oedi dod. Ychwanegaf finnau —gall beidio dod o gwbl—yr hyn, yn debygol, fydd yn ffaith.

***

Pa bryd y dysg Cristionogion mai ffigurol yw iaith y Testament Newydd ar y mater hwn o ail-ddyfodiad Crist ; ac mai'r unig ail-ddyfodiad posibl o hono yw ei ddyfodiad yn ei egwyddorion a'i ysbryd. Mae'r adeg hon, eto, a dweyd y lleiaf, ym mhell.

***

Braidd na theimlaf y dylwn wneud ymddiheuriad i'r darllenydd oherwydd cyfeirio o honof fel hyn at gylch-lythyr mor ddi-amcan ac ymarferol ddi-bwys. Cyflwynaf i'w sylw fel enghraifft dda iawn o lawer o dybiau ysmala (*freak opinions*) a ffynnant yn y byd Cristionogol.

SYLWEDYDD.

PRIODAS.

TACHWEDD 20, yn Eglwys Henfynyw, ger Aberayron, gan Ficer y lle, Gunner David Rees, (R.F.A.), Richmond House, Cwrtnewydd, â Miss Elizabeth Griffiths, ail ferch Mr. a Mrs. Wm. Griffiths, Neuadd-ddu Farm, Ciliau Aeron.

MARWGOFION.

HYDREF 22, ar ol cystudd o ychydig oriau, Enoch Stanley, mebyn i David ac Elizabeth Evans, Lodge Llanfair, Llandyssul, yn 20 mis oed. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhieni yn eu galar ar ol bychan mor dlws a ffraeth. Claddwyd yr lau canlynol, yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

HYDREF 23, yn 56 oed, Thomas Thomas, Station Road, Ponttwelly, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yng ngwasanaeth y diweddar Barch. W. James a'r teulu am flynyddoedd lawer, fel melinydd, ac iddo barch mawr, nid yn unig ganddynt hwy, ond gan y lluaws cwsmeriaid ddaethent i gyffyrddiad ag ef bob dydd. Perthynai iddo nodweddion arbennig, yr oedd yn weithiwr gonest a chydwybodol, yn wyneb-agored ac heb weniaith i neb. Ar gyfrif hynny yr oedd gan bawb gwbl ymddiriedaeth ynddo. Claddwyd ei ran farwol ym mynwent Pantydefaid, y Sadwrn dilynol, a gwasanaethwyd, yn absenoldeb y gweinidog, gan y Parch. E. O. Jenkins. Sul, Tachwedd yr 11eg, traddodwyd y bregeth angladdol ym Mantydefaid, gan y gweinidog, i gynulleidfa fawr. Gadawodd mewn galar ar ei ol, weddw, tri mab, ac un ferch. Nodded y Nef fo drostynt.

HYDREF 26, yn 74 oed, Mary Evans, Arfryn, Pontshaen, Llanddyssul, gan adael nifer luosog o berthynasau a chyfeillion i gwyno ei cholli. Bu'r ymadawedig am flynyddau maethion mewn gwasanaeth gyda Mr. John James, tad y diweddar Barch. William James, Llandyssul. "Mari, hen forwyn John James" oedd hi gan lawer hyd y diwedd. Deallwn iddi roddi gwasanaeth ffyddlon, ac ei bod yn barchus iawn gan y teulu. Fe wêl cynulleidfa'r Llwyn ei heisiau, canys, er nad oedd yn gwrddwraig, hi, er's blynyddau lawer, oedd yn cario a berwi dwfr ar adeg Tê Parti, Cymanfa, Cyrddau, &c. Bu'n ffyddlon iawn yn y cyfeiriad yna. Claddwyd y Llun canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

HYDREF 28, yn 69 oed, bu farw Elizabeth Evans, Ffrwdywhiad Arms, ger Cribyn, ar ol cystudd hir. Claddwyd ei gweddillion yng Nghapelygroes, y dydd Mercher dilynol, y Parch. Mr. Davies, Ficer Ystrad, yn gwasanaethu yn y tŷ ac ar lan y bedd, a Gweinidog y lle yn y capel.

TACHWEDD 4, James, mab Thomas a Mallie Thomas, Pantcoch Villa, (gynt o Ffinant), Talgarreg, yn 29 oed. Ni bu James erioed yn gryf ei iechyd, ac am y ddwy flynedd ddiweddaf amlwg ydoedd ei fod yn dihoeni. Daliodd atti, er hynny, i fyn'd oddiamgylch hyd o fewn i ychydig wythnosau i'w farwolaeth.

Treuliodd yr wythnosau hynny yn ei wely, a bu ei gystudd yn rhyfeddol o galed, mor galed, fel y teimlem fod "marw yn elw" iddo. Nid anhebyg oedd James i'r bachgen hwnnw y darfu i Daniel Owen ei anfarwoli drwy wneud cofiant mor doddedig iddo—y bachgen hwnnw y bu Rhys Lewis yn gweddio'n ymyl ei wely. Fel hwnnw, yr oedd James, pan yn iach, yn hoff o'r capel ac yr oedd yn aelod yn Bwlchyfadfa. Bellach, mae ei le yn wag. Dau rinwedd amlwg yn ei fywyd oedd diniweidrwydd a didwylledd. Ni wnai ddrwg i neb, ac ni ddywedai anwiredd o'i fodd. Cydymdeimlir a'r tad a'r fam, y chwaer, y brodyr a'r perthynasau ereill yn eu galar. Claddwyd y Mercher canlynol yn Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, a Tudor James (A.)

TACHWEDD 19, yn 29 mlwydd oed, Evan Evans, ail fab Mr. a Mrs. W. Evans, Cwrt Farm, Cwrtnewydd. Yr oedd iechyd yr ymadawedig wedi dechreu gwanychu er's amryw fisoedd, a pharodd hynny iddo, yn unol a chyfarwyddiad ei feddyg, i geisio ei adgyfnerthu. Ymddangosai yr haf diweddaf ei fod yn enill nerth, a chredid nad oedd perygl. Ond yr oedd er's rai wythnosau wedi gwaethygu, a gwanhaodd yn gyflym iawn yn y diwedd. Un o duedd dawel a gweithgar ydoedd, a threuliodd fywyd defnyddiol a gwasanaethgar ar y fferm. Collodd eglwys Capelybryn, ac ardal Cwrtnewydd un o'u bechgyn goreu wrth golli ein brawd ieuanc. Meddai ar fywyd mor hardd a phur fel nad oedd yn bosibl bod gwahanol farnau am dano. Yr oedd ei dymer dawel, ei ysbryd llednais ac addfwyn, a'i ymarweddiad dilychwin, wedi ei wneyd yn un a hoffid yn fawr gan ei gydnabod. Yr oedd yn aelod ffyddlon o eglwys Capelybryn, ac yn selog gyda'r Ysgol Sul. Dangosodd aelodau yr Ysgol Sul eu parch iddo drwy roddi pleth-dorch hardd ar ei fedd. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhieni, ac a'r plant, dau o ba rai sydd allan gyda'r fyddin, yn eu colled a'u galar; cysur yw iddynt fod y goffadwriaeth am dano mor felus. Claddwyd yr lau canlynol yn mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Davies, E. Glyn Edwards, D. Evans a L. Williams. Traddodir y bregeth angladdol Sul, Rhagfyr 2, gan y Parch. L. Williams.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Maesydd Llafur.—Fel y pasiwyd yn y pwyllgor yng Nghiliau, Awst diweddaf, nid oes llyfrau yn cael eu cyhoeddi i blant yr Ysgol Sul eleni. Credai rhai mai gwell cynllun er addysgu y plant yn effeithiol fyddai dewis pennodau yn cynwys rhyw hanes neilldiol, ac i'r athrawon egluro yr hanes hwnw, a thynu gwersi oddiwrtho, a holi cwestiynau i'r plant arno. Hyderwn y gwna yr athrawon ym mhob ysgol eu goreu dros y cynllun hwn: bydd ei lwyddiant yn dibynnu yn hollol arnynt hwy. Wele y Maesydd Llafur—Safon I: Luc xv; hefyd dysgu Salm I ar y cof. Safon II: Genesis 37; 38: 40; 41: 1—44; hefyd dysgu Salm 1 a 23 ar y cof.—L. WILLIAMS, *Ysg.*

CRIBYN.—Bydd yn llawenydd gan ei chyfeillion i ddeall fod Miss Bessie Evans, Mynach Villa, wedi ennill *Bronze Medal y Royal College of Music*. Llongyfarchwn hi yn galonnog ar ei llwyddiant. Uwch, uwch yr eled.

Y GRAIG, LLANDYSSUL.—Dydd Sul, Tach. 11, derbyniodd y gweinidog bymtheg o aelodau newyddion. Hyderwn y bydd yna ddefnyddioldeb a ffyddlondeb i'r goreu yn nodweddu eu holl fywyd.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF.—Cynhaliwyd cyfarfodydd diolch yn ein gwahanol eglwysi, fel arfer. Mae i'r wyl hon bellach le arbennig ym mywyd crefyddol ein eglwysi, ac y mae yn gyfrwng i'n dwyn ni oll wyneb yn wyneb a'r ffaith fawr, mai oddiuchod y derbyniwn bob rhoddiad ddaionus. Maddeuer i ni am dalfyru ar yr adroddiadau ddaeth i law -

Rhydygwin a Chiliau.—Y pregethwyr oeddynt y Parchn. L. Williams, a Mr. Jones, Gweinidog y Wesleyaid, Aberayron.

Capelycwm, Capelybryn ac Allt-yplaca.—Y Parchn. E. O. Jenkins, T. Oswald Williams, a'r Gweinidog.

Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa.—Y Parch. T. Oswald Williams, a'r Gweinidog.

Pantydefaid a Llandyssul.——Y Parch. E. O. Jenkins, a'r Gweinidog.

Capelygroes a Chribyn.—Y Gweinidog, a'r Parch. E. O. Jenkins.

Brondeifi a Chaerlonen.—Y Gweinidog, a'r Parch, E. O. Jenkins.

Gellionen.- Gwasanaethwyd gan y Gweinidog.

YMDDENGYS y "Cynnwysiad" arferol yn rhifyn Ionawr.

GORFODWYD gadael allan o'r rhifyn hwn amryw "Hanesion." Cânt ymddangos yn ein nesaf.

ER COF.

Am y Parch. T. Lloyd Jones.

Unllais tonnau Aeron lleddf a Mersi,
Tristach cri pob arab gwelw ac oer ;
Marw yw cyfaill calon plant trueni,—
Oerach stryd Llynlleifiad dan y lloer.

Garw ei wyneb heb ei wên garedig,
Pob amddifad bach oedd iddo'n frawd ;
Cyfaill cywir ydoedd i'r crwydredig,
Câr a noddydd yr afradlon tlawd.

Nid hyodledd pêr ond crâs ei eiriau,
Cleddyf fflamllyd wanai hyd y byw ;
Rhydd oedd ef fel awel bur y bryniau,
Cariad oedd efengyl 'Cenad Duw.'

Carai 'i wlad, ond hyawdl cri trueni—
A siriolai 'i phïol lawn y trist ;
Carodd ddyn yn *fwy* gan wneud daioni,
Drwy ei fywyd ceisiodd *fyw* y Crist.

Tawel heddyw'r yspryd byw aflonydd,
Cyffin dwywlad sydd yn galon drom ;
Atco'i fywyd ddwg rhyw yspryd newydd,
Drych yw'r deigryn *gloyw* o rodiad TOM.

AP GWARNANT.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1916.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz. :—			
£2 10s. od. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„ Reserve Fund	4,000,000	0	0
„ Dividend payable on 1st February, 1917	322,703	9	11
„ Balance of Profit and Loss Account	243,538	5	10
	9,347,034	5	9
Current, Deposit and other Accounts	174,620,724	17	9
„ Acceptances on account of Customers	7,220,780	12	2
	£191,188,539	15	8

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	47,973,686	4	4
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,844,377	19	10
„ Investments :—			
War Loans, at cost (of which £1,490,000 is lodged for Public and other Accounts)	33,399,534	13	6
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	326,406	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, Corporation Stocks	1,924,813	0	4
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	751,520	12	11
Sundry Investments	788,021	10	10
„ Bills of Exchange	23,336,817	6	9
	117,345,177	2	6
„ Advances on Current Accounts, &c....	63,868,856	17	4
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	7,220,780	12	2
„ Bank Premises, at Head Office and Branches	2,753,725	3	8
	£191,188,539	15	8